




## Amcangyfrifon tloidi tanwydd ar gyfer Cymru, 2018: diwygiedig

13 Rhagfyr 2019  
SB 34/2019(R)

Mae Siart 3.5 a Thabl 3.5.1 wedi'u diwygio. Gweler y [nodyn diwygio](#).

Mae'r bwletin hwn yn dilyn amcangyfrifon tloidi tanwydd y Datganiad Ystadegol ar gyfer [prif ganlyniadau](#) Cymru 2018 a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019 ac mae'n rhoi dadansoddiad manylach o'r amcangyfrifon tloidi tanwydd ar gyfer 2018. Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn ar y cyd gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) ac ystadegwyr Llywodraeth Cymru.

### Aelwydydd yn byw mewn tloidi tanwydd yn ôl deiliadaeth, Cymru, 2018



Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

### Prif bwyntiau

- Roedd 155,000 o aelwydydd yn byw mewn tloidi tanwydd. Mae hyn gyfwerth â 12% o'r holl gartrefi yng Nghymru.
- Roedd aelwydydd yn y sector rhentu preifat yn fwy tebygol o fod yn dlawd o ran tanwydd, a 20% o'r rhain yn byw mewn tloidi tanwydd.
- Roedd 50% o'r rheiny yn byw mewn tloidi tanwydd yn aelwydydd person sengl heb blant (r).
- Mae aelwydydd mewn eiddo hŷn yn fwy tebygol o fod yn dlawd o ran tanwydd. Roedd 20% o aelwydydd yn byw mewn anheddau cyn-1919 yn dlawd o ran tanwydd.
- Roedd 21% o aelwydydd yn byw mewn eiddo â waliau soled heb eu hinswleiddio yn dlawd o ran tanwydd, ac roedd 39% o bobl yn byw mewn eiddo heb wres canolog yn dlawd o ran tanwydd.
- Roedd 43% o aelwydydd mewn eiddo ag effeithlonrwydd ynni gwaelach (Bandiau F a G EPC) yn dlawd o ran tanwydd, o gymharu â 5% o aelwydydd yn byw mewn eiddo ym mandiau B i C

### Ynglŷn â'r bwletin hwn

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau'r amcangyfrifon tloidi tanwydd a gyfrifwyd ar gyfer Cymru, gan ddefnyddio Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18, Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 a data prisiau tanwydd.

Yng Nghymru, diffinnir bod aelwyd yn dlawd o ran tanwydd pe byddai'n rhaid iddi wario mwy na 10% o'i hincwm ar gynnal trefn wresogi foddhaol. Diffinnir bod unrhyw aelwyd y mae'n rhaid iddi wario dros 20% mewn tloidi tanwydd difrifol.

### Yn y bwletin hwn

<a href="#">Gwybodaeth Gefndir</a>	3
<a href="#">Prif Ystadegau</a>	7
<a href="#">Nodweddion Aelwydydd</a>	9
<a href="#">Nodweddion</a>	
<a href="#">Anheddau</a>	14
<a href="#">Newidiadau ers 2008</a>	19
<a href="#">Tloidi Tanwydd yn y DU</a>	22
<a href="#">Mesurau amgen</a>	26
<a href="#">Amcanestyniadau 2016</a>	29
<a href="#">Atodiad A Methodoleg</a>	31

Diwygiwyd hyn ar 29 Awst 2019

Ystadegydd: Abi Woodham 0300 025 1053 [ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru](mailto:ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru)

Ymholiadau o'r wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau cyhoeddus : 0300 025 5050 Twitter: [@ystadegaucymru](https://twitter.com/ystadegaucymru)

# Cynnwys

1.	Gwybodaeth gefndir .....	1
1.1.	Diffiniad o Dlodi Tanwydd .....	3
1.2.	Amlinelliad o'r fethodoleg .....	4
1.3.	Cynnwys a fformat .....	4
2.	Prif Ystadegau Tlodi Tanwydd .....	6
2.1.	Yr holl aelwydydd.....	6
2.2.	Aelwydydd sy'n agored i niwed .....	6
2.3.	Tlodi Tanwydd Difrifol .....	7
3.	Nodweddion Aelwydydd.....	8
3.1.	Math o Aelwyd ac Oedran Person Cyswllt y Cartref (HRP). .....	8
3.2.	Deiliadaeth.....	9
3.3.	Statws Cyflogaeth.....	10
3.4.	Incwm .....	11
3.5.	Budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd .....	12
4.	Nodweddion Anheddau.....	13
4.1.	Math o annedd.....	13
4.2.	Oedran anheddau.....	13
4.3.	Prif system wresogi.....	14
4.4.	Math o wal ac inswleiddio .....	15
4.5.	Effeithlonrwydd ynni: graddau SAP a band EPC.....	16
4.6.	Lleoliad – Dosbarthiad Gwledig/Trefol .....	17
5.	Newidiadau Ers 2008 a Gwahanu Effeithiau .....	18
5.1.	Newidiadau allweddol ers 2008 yn y math o aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd .....	18
5.2.	Gwahanu effaith gymharol pob elfen o dlodi tanwydd .....	18
6.	Tlodi tanwydd ledled y Deyrnas Unedig .....	21
6.1.	Cymru.....	21
6.2.	Gogledd Iwerddon .....	22
6.3.	Yr Alban.....	23
6.4.	Lloegr .....	24
7.	Mesurau amgen tloidi tanwydd .....	25
7.1.	Diffiniad o 10 y cant (incwm sylfaenol) .....	25
7.2.	Trefn wresogi amgen .....	25
7.3.	Incwm isel costau uchel.....	25
8.	Canlyniadau yng nghyd-destun amcanestyniadau 2016 .....	28
	Atodiad A: Crynodeb o fethodoleg .....	30
	Atodiad B: Tablau .....	33
	Gwybodaeth ansawdd allweddol.....	38

# 1. Gwybodaeth gefndir

Mae aelwyd yn dlawd o ran tanwydd os na all fforddio cynnal trefn wresogi foddhaol am gost resymol.

Mae [Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010](#) Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r camau y dylid eu cymryd i leihau tlodi tanwydd yng Nghymru. Mae manylion am [raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru](#), sy'n cynnwys cynlluniau Arbed a Nyth, ac sy'n darparu cyllid ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni i aelwydydd incwm isel, ar gael.

Yn Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010, mae Llywodraeth Cymru yn gosod targedau i ddileu tlodi tanwydd cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol:

- mewn aelwydydd sy'n agored i niwed erbyn 2010
- mewn tai cymdeithasol erbyn 2012
- ym mhob aelwyd erbyn 2018.

Diffinnir aelwydydd sy'n agored i niwed fel y rheiny â rhywun sy'n 60 oed neu'n hŷn, plentyn neu berson ifanc o dan 16 oed a/neu unigolyn sy'n anabl neu sydd â chyflwr cyfyngol hirdymdor.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgynghori ar gynllun newydd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn hydref 2019, gyda'r bwriad i gyhoeddi cynllun diwygiedig terfynol ar ddechrau 2020. Bydd yr adroddiad hwn, sy'n cyflwyno dadansoddiad manylach o'r amcangyfrifon tlodi tanwydd ar gyfer 2018 (yn seiliedig ar y data a gasglwyd yn [Arolwg Cyflwr Tai Cymru](#)), yn llywio'r cynllun newydd i helpu targedu tlodi tanwydd.

## 1.1. Diffiniad o Dlodi Tanwydd

Ystyrir bod aelwyd yn dlawd o ran tanwydd os na allant gadw eu cartref yn gynnes am gost resymol. Yng Nghymru, caiff hyn ei fesur fel unrhyw aelwyd y byddai'n rhaid iddi wario mwy na 10% o'i hincwm ar gynnal trefn wresogi foddhaol, yn unol â'r hyn a argymhellir gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO). Mae hyn yn golygu bod angen isafswm tymheredd dan do o 21 gradd canradd mewn ystafelloedd byw, a 18 gradd canradd mewn ardaloedd eraill. Diffinnir bod unrhyw aelwyd y mae'n rhaid iddi wario mwy na 20% o'i hincwm ar gynnal trefn wresogi foddhaol mewn tlodi tanwydd difrifol.

Felly, caiff p'un a yw aelwyd yn dlawd o ran tanwydd ei bennu yn ôl faint o incwm y mae'r aelwyd yn ei dderbyn, a faint o'r incwm hwnnw sydd ei angen i gynnal trefn wresogi foddhaol yn yr annedd y maent yn byw ynddo. Caiff y gwariant ar danwydd ei ddylanwadu gan ffactorau amrywiol fel effeithlonrwydd ynni yn y cartref, pris y tanwydd a ddefnyddir, a ph'un a yw'r cartref wedi'i danfeddiannu.

Gellir defnyddio dau ddull gwahanol o ddiffinio incwm aelwyd i gyfrifo tlodi tanwydd; sef '*Incwm llawn*' ac '*Incwm sylfaenol*'. Diffinnir y rhain yn gryno yn [Atodiad A](#).

- **Incwm llawn** – Mae aelwyd mewn tlodi tanwydd pe byddai angen iddi wario mwy na 10% o'i hincwm (gan gynnwys Budd-dal Tai neu Gymhorthdal Incwm ar gyfer Llog Morgais) er mwyn cynnal trefn wresogi foddhaol ar yr holl danwydd a ddefnyddir ar gyfer yr aelwyd. Y diffiniad hwn yw prif ddangosydd tlodi tanwydd, ac fe'i defnyddir ar gyfer monitro cynnydd.
- **Incwm sylfaenol** – Mae'r diffiniad hwn yn union yr un fath heblaw am y ffaith *nad yw'n cynnwys* Budd-dal Tai a Chymhorthdal Incwm ar gyfer Llog Morgais. Diffiniad hanesyddol yw

hwn, ac fe gaiff ei gadw a'i adrodd yn bennaf er cysondeb ag amcangyfrifon hanesyddol o dlodi tanwydd.

Mae prif gorff yr adroddiad hwn yn defnyddio'r **diffiniad incwm llawn**. Mae [Adran 7](#) yn disgrifio lefel y tlodi tanwydd gan ddefnyddio'r diffiniad incwm sylfaenol. Mae [Adran 7](#) hefyd yn cyflwyno canlyniadau'r dadansoddiad o ddata Cymru i gyfrifo'r diffiniad "Incwm Isel Costau Uchel" o dlodi tanwydd; sef y diffiniad a ddefnyddir yn Lloegr ar hyn o bryd. Rhoddir crynodeb o'r diffiniad hwn yn yr adran hon o'r adroddiad.

## 1.2. Amlinelliad o'r fethodoleg

Cyfrifwyd yr amcangyfrifon o ran aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE). Mae BRE hefyd yn llunio amcangyfrifon tlodi tanwydd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac yn cynhyrchu'r costau tanwydd a ddefnyddir yn amcangyfrifon Yr Alban.

Defnyddir tair prif elfen mewn cyfrifiadau tlodi tanwydd, sef:

- Incymau blynyddol aelwydydd
- Prisiau tanwydd aelwydydd
- Defnydd ynni blynyddol sy'n angenrheidiol i aelwydydd.

Cynhaliwyd [Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18](#) (ACTC) gan BRE ar ran Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd archwiliadau anymwithiol gan syrfewyr cymwys mewn 2,549 o eiddo ledled Cymru rhwng mis Awst 2017 a mis Ebrill 2018. Defnyddir data o ACTC i bennu effeithlonrwydd ynni'r cartref, ac felly, faint o ynni sydd ei angen i'w wresogi yn unol â threfn wresogi Sefydliad Iechyd y Byd. I amcangyfrif costau tanwydd aelwydydd, mae BRE yn cymryd y defnydd ynni sy'n angenrheidiol i'r aelwyd ac yn cyfuno hyn â'r pris tanwydd hysbys ar gyfer y dull talu<sup>1</sup> a ddefnyddir gan yr aelwyd, a lleoliad yr aelwyd honno yng Nghymru.

Cymerwyd y sampl ar gyfer Arolwg Cyflwr Tai Cymru o aelwydydd cymwys yn cymryd rhan yn [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) yn 2017-18 a oedd, os yr ymatebydd oedd Person Cyswllt y Cartref (HRP)<sup>2</sup>, neu'i briod/phriod/partner, yn cynnwys set fanwl o gwestiynau am incwm a chostau tai<sup>3</sup> er mwyn gallu cyfrifo incymau aelwydydd blynyddol ar gyfer achosion Arolwg Cyflwr Tai Cymru.

Diffinnir bod aelwyd y mae angen iddi wario mwy na 10% o'i hincwm ar gynnal trefn wresogi foddhaol mewn tlodi tanwydd. Diffinnir unrhyw aelwyd y mae'n rhaid iddi wario mwy na 20% mewn tlodi tanwydd difrifol.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth lefel uchel am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i lunio'r amcangyfrifon hyn yn [Atodiad A](#). Gellir gweld gwybodaeth fanylach yn yr [adroddiad methodoleg](#) sy'n cyd-fynd â'r canlyniadau hyn.

## 1.3. Cynnwys a fformat

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r amcangyfrifon tlodi tanwydd a gyfrifwyd ar gyfer Cymru gan ddefnyddio data Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18, gan gynnwys y prif amcangyfrifon allweddol a

<sup>1</sup> e.e. debyd uniongyrchol, mesurydd rhagdal, ac ati.

<sup>2</sup> Person Cyswllt y Cartref (HRP) yw'r ymatebydd y mae'r eiddo'n cael ei berchnogi neu'i rentu yn ei (h)enw. Os caiff yr eiddo ei berchnogi/rentu ar y cyd, Person Cyswllt y Cartref yw'r un sy'n ennill y cyflog uchaf. Os oes mwy nag un person yn perchnogi/rhentu'r eiddo ar y cyd, Person Cyswllt y Cartref yw'r hynaf o'r bobl hyn.

<sup>3</sup> [Arolwg Cenedlaethol Cymru: holiaduron](#)

dadansoddiadau o'r tlodi tanwydd yn ôl nodweddion aelwydydd ac anheddau. Mae mwyafrif yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganlyniadau o dan y diffiniad tlodi tanwydd 10% (disgrifir uchod), a ddefnyddir yng Nghymru ar hyn o bryd, ac yn benodol, yr is-ddiffiniad o incwm llawn. Caiff y canlyniadau eu cymharu â'r amcangyfrifon tlodi tanwydd o [Arolwg Byw yng Nghymru 2008](#) (yr arolwg llawn diwethaf o gyflwr tai a gynhaliwyd yng Nghymru).

Defnyddiodd yr amcangyfrifon hynny'r disgrifiadau uchod o dlodi tanwydd, aelwydydd sy'n agored i niwed a threfn wresogi foddhaol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r ffigurau yn y datganiad hwn yn 2018 yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer ffigurau 2008, felly gellir gwneud cymariaethau bras. Fodd bynnag, bu newid yn y fethodoleg SAP ers llunio ystadegau 2008 (gweler [Gwybodaeth Ansawdd Allweddol](#)).

Mae [Adran 5](#) yn rhoi syniad am yr effaith cymharol o bob un o'r ffactorau tlodi tanwydd yn y cyfnod rhwng 2008 a 2018. Mae [Adran 6](#) y bwletin hwn yn rhoi'r canlyniadau ar gyfer Cymru yng nghydestun ystadegau tlodi tanwydd mewn gwledydd eraill o'r Deyrnas Unedig, gan nodi ble defnyddir gwahanol ddiffiniadau ar draws y Deyrnas Unedig. Mae [Adran 7](#) yr adroddiad yn rhoi syniad am y canlyniadau yn sgil defnyddio'r manylebau amgen hynny ar gyfer y mesur tlodi tanwydd 10%, sef

- defnyddio'r diffiniad o incwm sylfaenol yn hytrach na'r incwm llawn a
- defnyddio'r diffiniad incwm llawn ond gyda threfn wresogi amgen ar gyfer aelwydydd, gan gynnwys pobl hŷn a'r rheiny sydd â salwch hirdymor neu anabledd

Lluniwyd canlyniadau ar gyfer Cymru hefyd gan ddefnyddio'r diffiniad Incwm Isel Costau Uchel (LIHC) o dlodi tanwydd, fel a ddefnyddir yn Lloegr ar hyn o bryd. Cyflwynir y canlyniadau hyn yn [Adran 7](#) yr adroddiad. Nid yw'r canlyniadau a gyflwynir yn [Adran 7](#) yn cynrychioli'r amcangyfrifon swyddogol o dlodi tanwydd ar gyfer Cymru, ond fe'u darperir i ddangos effaith defnyddio diffiniadau amgen, a fydd yn ddefnyddiol wrth ystyried monitro tlodi tanwydd yn y dyfodol, wrth ddatblygu'r cynllun tlodi tanwydd newydd.

Yn olaf, mae [Adran 8](#) yr adroddiad hwn yn cynnwys trafodaeth am gywirdeb yr ymchwil ychwanegol a gynhaliwyd i lunio [amcanestyniadau tlodi tanwydd](#) 2016. Lluniwyd y rhain gan ddefnyddio data Arolwg Byw yng Nghymru 2008, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am gostau tanwydd ac incymau a modelu gosodiadau effeithlonrwydd ynni i ragweld lefelau amcangyfrifedig o dlodi tanwydd hyd at 2018. Ar gyfer y gwaith amcanestyniadau, newidiwyd y drefn wresogi i fod yn 23 gradd canradd mewn ystafelloedd byw ar gyfer aelwydydd â phobl hŷn neu bobl ag anableddau neu salwch cronig, ac ehangwyd y diffiniad o aelwydydd sy'n agored i niwed i gynnwys aelwydydd sy'n cynnwys pobl ifanc o dan 25 oed. Mae'r adran hon yn ystyried pa mor briodol oedd y rhagdybiaethau pan gawsant eu cymharu â'r sylwadau y gallwn eu gwneud erbyn hyn.

Mae tablau sy'n sail i'r siartiau a'r sylwadau wedi eu cynnwys yn [Atodiad B](#) er gwybodaeth.

## 2. Prif Ystadegau Tlodi Tanwydd

### 2.1. Yr holl aelwydydd


O dan y diffiniad incwm llawn, roedd 155,000 o aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd yn 2018; mae hyn gyfwerth â 12% o'r holl aelwydydd yng Nghymru ([Tabl 2.1.1](#)). Mae hyn yn ostyngiad o gymharu â 2008 lle roedd 332,000 o aelwydydd, sydd gyfwerth â 26% o'r holl aelwydydd, yn byw mewn tlodi tanwydd ([Tabl 2.1.2](#)).

### 2.2. Aelwydydd sy'n agored i niwed

Credir bod byw mewn amgylchedd oer a llaith yn gwaethygu problemau iechyd fel asthma a chyflyrau'r galon, felly mae o ddiddordeb polisi penodol i ystyried lefel tlodi tanwydd ymhlith aelwydydd sy'n cynnwys aelodau yr ystyrir eu bod yn wynebu risg benodol o gael niwed o oerfel yn y cartref<sup>4</sup>. Diffinnir aelwydydd sy'n agored i niwed (at y dibenion hyn) fel y rheiny ag unigolyn sy'n 60 oed neu'n hŷn, plentyn neu berson ifanc o dan 16 oed a/neu unigolyn sy'n anabl neu sydd â chyflwr cyfyngol hirdymor.

Yn 2018, roedd 130,000 o aelwydydd sy'n agored i niwed mewn tlodi tanwydd o dan y diffiniad incwm llawn, sydd gyfwerth ag 11% o'r holl aelwydydd sy'n agored i niwed ([Tabl 2.2.1](#)). Mae hyn yn ostyngiad o gymharu â 2008 pan oedd 285,000 (29% o'r holl aelwydydd sy'n agored i niwed) yn byw mewn tlodi tanwydd.

#### Siart 2.2: Nifer yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd – yr holl aelwydydd ac aelwydydd sy'n agored i niwed, Cymru, 2018




Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

<sup>4</sup> Marmot Review Team (2011). [The Health Impacts of Cold Homes and Fuel Poverty](#) (London: Friends of the Earth).

### 2.3. Tlodi Tanwydd Difrifol

Diffinnir bod aelwyd mewn tlodi tanwydd difrifol os bydd rhaid iddynt wario mwy na 20% o'u hincwm i gynnal trefn wresogi foddhaol. Mae hyn yn golygu bod angen cael isafswm tymheredd dan do o 21 gradd canradd mewn ystafelloedd byw ac 18 gradd canradd mewn ardaloedd eraill.

**Siart 2.3a: Aelwydydd mewn tlodi tanwydd difrifol, Cymru, (2008 a 2018)**



Ffynhonnell: Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008 ac Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

Yn 2018, roedd 32,000 o aelwydydd (2% o'r holl aelwydydd) yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol. Caiff hyn ei gymharu â 60,000 o aelwydydd yn 2008 (5% o'r holl aelwydydd) ([Tabl 2.3.1](#)). Roedd 19,000 (2%) o aelwydydd agored i niwed yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol yn 2018, o gymharu â 52,000 (5%) yn 2008.


### 3. Nodweddion Aelwydydd

#### 3.1. Math o Aelwyd ac Oedran Person Cyswllt y Cartref (HRP)<sup>5</sup>.

Aelwydydd pensiynwyr ac aelwydydd pobl sengl oedd mewn tlodi tanwydd yn bennaf yn 2018. Y grŵp pensiynwyr sengl (heb blant) oedd y math mwyaf cyffredin o aelwyd ymhlith yr holl aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd (29%), wedi'i ddilyn gan y grŵp pobl sengl (nid pensiynwr, dim plant) (22%). Y math o aelwyd lleiaf amlwg ymhlith aelwydydd mewn tlodi tanwydd oedd aelwydydd â dau oedolyn gyda phlant (3%) (Siart 3.1a). Roedd aelwydydd pobl sengl (heb blant) yn cyfrif am 50% o'r boblogaeth sy'n dlawd o ran tanwydd, sef cynnydd o 45% yn 2008.

Roedd gormod o gynrychiolaeth o aelwydydd pobl sengl o fewn y boblogaeth sy'n dlawd o ran tanwydd o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Ymhlith yr holl aelwydydd, y math mwyaf cyffredin o aelwyd yw'r aelwyd pensiynwyr sengl (19%), wedyn yr aelwyd â dau oedolyn (hyd at un pensiynwr) heb blant (18%).

**Siart 3.1a: Dosbarthiad aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd a'r holl aelwydydd, yn ôl math o aelwyd, Cymru, 2018 (a)**



Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

- (a) Nodwch fod yr amcangyfrifon ar gyfer y categorïau canlynol yn seiliedig ar niferoedd bach (llai na 30 o ymatebwyr) ac felly dylid eu trin â gofal:  
Aelwyd dau oedolyn gyda phlant, Aelwyd rhiant sengl, ac Aelwydydd eraill (r)

Roedd 18% o aelwydydd pensiynwyr sengl yn dlawd o ran tanwydd yn 2018 ac 19% o aelwydydd pobl sengl nad ydynt yn bensiynwyr yn dlawd o ran tanwydd yn 2018. Y grŵp aelwyd sydd â'r ganran


<sup>5</sup> Person Cyswllt y Cartref (HRP) yw'r ymatebydd y caiff yr eiddo ei berchnogi neu'i rentu yn ei enw. Os caiff yr eiddo ei berchnogi/rentu ar y cyd, Person Cyswllt y Cartref yw'r sawl sy'n ennill y cyflog uchaf. Os oes mwy nag un person yn perchnogi/rhentu'r eiddo ar y cyd a'u bod yn ennill yr un cyflog, Person Cyswllt y Cartref yw'r hynaf o'r bobl hyn.  
(r) Diwygiwyd hyn ar 3 Medi 2019



isaf o aelwydydd mewn tlodi tanwydd oedd yr aelwydydd â dau berson gyda phlant, gyda 2% o aelwydydd yn y grŵp hwn yn byw mewn tlodi tanwydd ([Tabl 3.1.1](#)).

Mae'r bobl sydd mewn aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd yn hŷn ar y cyfan. O'r holl aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd, roedd 26% yn cynnwys Person Cyswllt y Cartref (HRP) sy'n 75 oed ac yn hŷn, ac roedd 43% yn cynnwys Person Cyswllt y Cartref sy'n 65 oed neu'n hŷn (Siart 3.1b).

### Siart 3.1b: Dosbarthiad aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd a'r holl aelwydydd, yn ôl oedran Person Cyswllt y Cartref (HRP), Cymru, 2018




Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

Y grŵp oedran Person Cyswllt y Cartref â'r gyfran uchaf o aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd oedd y rheiny â Pherson Cyswllt y Cartref dros 75 oed; roedd 19% o'r grŵp hwn yn dlawd o ran tanwydd ([Tabl 3.1.2](#)).

### 3.2. Deiliadaeth

Yn 2018, roedd eiddo i berchen-feddianwyr yn cyfrif am fwyaf yr aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd (99,000 neu 64% o aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd), o ganlyniad i'r ffaith mai hwn yw'r math amlycaf o ddeiliadaeth o fewn y stoc dai yng Nghymru. Fodd bynnag, aelwydydd yn y sector eiddo wedi'i rentu'n breifat oedd â'r gyfran uchaf o aelwydydd mewn tlodi tanwydd. Roedd oddeutu 20% o aelwydydd sy'n cael eu rhentu'n breifat mewn tlodi tanwydd o gymharu ag 11% o eiddo i berchen-feddianwyr a 9% o dai cymdeithasol (Siart 3.2 a [Tabl 3.2.1](#)).

### Siart 3.2: Canran yr aelwydydd sy'n byw mewn tloidi tanwydd yn ôl deiliadaeth, Cymru, 2018



Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymdeithasol 2017-18

### 3.3. Statws Cyflogaeth


Incwm yw un o dair elfen allweddol tloidi tanwydd, ac un o'r ffactorau allweddol sy'n pennu incwm yw statws cyflogaeth. Fel y gellir ei weld yn (Siart 3.3) a [\(Tabl 3.3.1\)](#) yng Nghymru, 2018:

- Roedd 18% o ymatebwyr economaidd anweithgar<sup>6</sup> yn dlawd o ran tanwydd.
- Roedd 28% o ymatebwyr di-waith yn dlawd o ran tanwydd<sup>7</sup> (r), ac
- Roedd 4% o ymatebwyr mewn swydd yn dlawd o ran tanwydd.

<sup>6</sup> Mae economaidd anweithgar yn cynnwys y rheiny sydd â salwch hirdymor, pobl wedi ymddeol neu bobl sy'n gofalu am y cartref neu'r teulu, gan gynnwys y rheiny sy'n fyfyrwyr amser llawn

<sup>7</sup> Sylwer bod y ffigurau hyn yn seiliedig ar sampl fach (r) Diwygiwyd hyn ar 3 Medi 2019

### Siart 3.3: Aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd, yn ôl statws cyflogaeth yr ymatebwyr, Cymru 2018 (r)




Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

### 3.4. Incwm

Aelwydydd ag incymau isel sy'n wynebu tlodi tanwydd yn bennaf. Ystyrir yn draddodiadol bod yr aelwydydd yn y tri degradd incwm isaf<sup>8</sup> mewn perygl yn arbennig. O'u rhannu yn ddegraddau incwm, disgynnodd 59% o'r holl aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn 2018 i'r degradd incwm isaf (Siart 3.4). Roedd 69% o aelwydydd yn y degradd incwm isaf yn dlawd o ran tanwydd. ([Tabl 3.4.1](#)).

### Siart 3.4: Aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd yn ôl degradd incwm, Cymru, 2018




Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

<sup>8</sup> Degfedau rhan o'r dosbarthiad incwm yw degraddau incwm, gyda phob grŵp yn cynnwys yr un nifer o aelwydydd (gan ddefnyddio data wedi'i bwysoli).  
(r) Diwygiwyd hyn ar 3 Medi 2019

### 3.5. Budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd (r)

Yn 2018, roedd 31% o aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd yn derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd<sup>[9]</sup> (MTB). O'r holl aelwydydd sy'n cael y budd-daliadau hyn, roedd 14% yn dlawd o ran tanwydd o gymharu â 11% o'r aelwydydd hynny nad oeddent yn cael y budd-daliadau hyn sy'n dibynnu ar brawf modd (Siart 3.5 a [Thabl 3.5.1](#)).

#### Siart 3.5: Aelwydydd yn byw mewn tloedi tanwydd sy'n cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd (MTB), Cymru, 2018 (r)



Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

<sup>9</sup> Mae'r budd-daliadau hyn yn cynnwys budd-dal tai, cymhorthdal incwm, lwfans cyflogaeth a chymorth (ESA), lwfans ceiswyr gwaith (JSA), credyd pensiwn, cymorth treth cyngor, credyd cynhwysol, credyd treth plant, a chredyd treth gwaith. Caiff aelwydydd sy'n derbyn credyd treth gwaith neu greddyd treth plant dim ond eu cynnwys yn newidyn y budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd hwn os oes gan Berson Cyswllt y Cartref (HRP) ac unrhyw bartner incwm gros perthnasol sy'n llai na'r trothwy incwm cyntaf i gael Credyd Treth Plant (£16,105, yn 2017/18). Mae'r cyfyngiad hwn yn amherthnasol os ydynt yn derbyn budd-daliadau cymwys eraill.  
(r) Diwygiwyd hyn ar 13 Rhagfyr 2019


## 4. Nodweddion Anheddau

Mae'r adran hon yn cynnwys dadansoddiad o'r mathau o anheddau y mae aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn byw ynddynt. Ar gyfer y rhan fwyaf o nodweddion aelwydydd, mae dosbarthiad yr holl aelwydydd yn debyg i'r rheiny mewn tlodi tanwydd. Lle ceir gwahaniaeth, mae hyn wedi'i gynnwys.

### 4.1. Math o anedd

Ar draws yr holl fathau o dai, roedd canran yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn debyg ar y cyfan; yn amrywio o 10% (tai pâr) i 14% (ar ddiwedd teras). ([Tabl 4.1.1](#)).

**Siart 4.1: Aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn ôl math o anedd, Cymru, 2018**




Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

### 4.2. Oedran anheddau

Yn 2018, roedd aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd yn fwy tebygol o fod yn byw mewn eiddo hŷn nag mewn eiddo mwy modern. Yn gyffredinol, y mwyaf newydd yw'r anheddau, ceir patrwm o gyfrannau gostyngol o aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd (Siart 4.2 a [Tabl 4.2.1](#)). Mae hyn yn debygol o fod yn rhannol o ganlyniad i briodoleddau thermol eu strwythur. Er enghraifft, y math mwyaf cyffredin o wal ar gyfer eiddo cyn-1919 yw wal soled. Mae waliau soled yn llai effeithlon yn cadw gwres, felly'n cynyddu'r ynni y byddai angen i wresogi eiddo.

O'r rheiny mewn tlodi tanwydd, mae cyfran uwch o aelwydydd yr adeiladwyd cyn 1919 a chyfran is o aelwydydd yr adeiladwyd ar ôl 1980 o gymharu â phoblogaeth cyfan holl aelwydydd yr arolwg yn y grwpiau yma.

## Siart 4.2: Aelwydydd mewn tloidi tanwydd yn ôl oedran anheddau, Cymru, 2018



Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18


### 4.3. Prif system wresogi

Un ffordd o amddiffyn aelwyd rhag tloidi tanwydd yw sicrhau bod ffordd gost-effeithiol o wresogi'r annedd. Ystyrir mai gwres canolog, ac yn arbennig system gwres canolog nwy o'r prif gyflenwad, yw un o'r systemau gwresogi mwyaf cost-effeithlon a ddefnyddir yn y brif ffrwd yn y stoc dai yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae systemau gwres canolog yn cynnwys: systemau boeler gyda rheiddiaduron, systemau dŵr cynnes a systemau 'eraill' fel systemau gwresogi dan y llawr, a systemau cymunol. Mae costau tanwydd cyfartalog aelwydydd nad oes ganddynt systemau gwres canolog yn uwch am y flwyddyn na'r rheiny sydd â systemau gwres canolog.

Mae cyfraddau tloidi tanwydd ymhlith y rheiny sydd â gwres canolog yn agos at y lefel nodweddiadol ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol, sef 10%. Yn 2018, nid oedd gan 5% o'r holl aelwydydd yng Nghymru system gwres canolog, ond yn hytrach, roeddent yn defnyddio gwresogyddion stôr neu wresogyddion ystafell sefydlog. Ymhlith yr aelwydydd hynny, mae'r ganran sy'n byw mewn tloidi tanwydd yn codi i 39% (Siart 4.3 a [Tabl 4.3.1](#)).

### Siart 4.3: Aelwydydd sy'n byw mewn tldi tanwydd, yn ôl prif fath o system wresogi, Cymru, 2018




Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

#### 4.4. Math o wal ac inswleiddio

Roedd aelwydydd yn byw mewn anheddau wedi'u hinswleiddio'n well yn llai tebygol o fod mewn tldi tanwydd. Yn 2018, roedd 7% o aelwydydd mewn eiddo â waliau ceudod wedi'u hinswleiddio (y math o wal fwyaf effeithlon ar y cyfan) yn dlawd o ran tanwydd, o gymharu â 21% o aelwydydd mewn mathau o waliau soled heb eu hinswleiddio (Siart 4.4 a [Tabl 4.4.1](#)).

O'r rheiny mewn tldi tanwydd, mae cyfran is o aelwydydd gyda waliau ceudod wedi'u hinswleiddio, a chyfran uwch o aelwydydd gyda waliau soled heb eu hinswleiddio, o gymharu â phoblogaeth gyfan holl aelwydydd yr arolwg yn y grwpiau yma. Noder y dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r data ynglyn âg aelwydydd gyda waliau soled heb eu hinswleiddio gan bo'r nifer o atebwyr o aelwydydd gyda'r math yma o wal yn fach. .

#### Siart 4.4: Aelwydydd yn byw mewn tldi tanwydd yn ôl y math o wal ac inswleiddio, Cymru, 2018<sup>10</sup>



Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

<sup>10</sup> Mae 'arall' yn cynnwys waliau pren, wedi'u hinswleiddio a heb eu hinswleiddio.


#### 4.5. Effeithlonrwydd ynni: graddau SAP a band EPC

Y Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) yw'r fethodoleg a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i asesu a chymharu anheddau yn eu perfformiad o ran ynni a'u perfformiad amgylcheddol.

Mae SAP yn gweithio trwy asesu faint o ynni y bydd annedd yn ei ddefnyddio, wrth ddarparu lefel ddiffiniedig o gysur a darpariaeth gwasanaeth. Mae'r asesiad yn seiliedig ar ragdybiaethau safonedig ar gyfer deiliadaeth ac ymddygiad. Mae hyn yn golygu y gellir gwneud cymhariaeth gyfatebol o berfformiad anheddau. Mynegir y graddau ar raddfa rhwng 1 a 100, lle mae 100 yn cynrychioli dim cost ynni.

Rhennir graddau SAP yn fandiau o A i G. Dyma'r bandiau a ddefnyddir ar gyfer Tystysgrifau Perfformiad Ynni (EPC). Pennir y gwerthoedd uchaf (h.y. y lefelau uchaf o effeithlonrwydd ynni) i fand A a phennir y gwerthoedd isaf i fand G.

#### Siart 4.5: Aelwydydd sy'n byw mewn tloidi tanwydd yn ôl band Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC), Cymru, 2018<sup>11</sup>



Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

Yn nodweddiadol, roedd bandiau EPC aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd yn is. Dim ond 13% o aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd oedd â gradd C neu'n uwch, o gymharu â 30% o aelwydydd tlawd heb danwydd. Wrth i fandiau EPC wella, mae canran yr aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd yn gostwng. Roedd 43% o aelwydydd yn byw mewn eiddo ag effeithlonrwydd ynni gwaelach (Bandiau F a G, EPC) yn dlawd o ran tanwydd, o gymharu â 5% o aelwydydd yn byw mewn eiddo ym mandiau B i C (Siart 4.5 a [Tabl 4.5.1](#)).


<sup>11</sup> Nid oedd unrhyw un o'r aelwydydd yn y sampl yn disgyn ym mand A.



#### 4.6. Lleoliad – Dosbarthiad Gwledig/Trefol <sup>12</sup>

Roedd aelwydydd mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tloedi tanwydd. O'r holl aelwydydd mewn lleoliadau gwledig, roedd tua 14% yn dlawd o ran tanwydd, o gymharu â 10% o aelwydydd yn byw mewn ardaloedd trefol (Siart 4.6 a [Tabl 4.6.1](#)). Yn rhannol, gallai hyn adlewyrchu cyfran fwy o aelwydydd mewn ardaloedd gwledig heb wres canolog. ([Tabl 4.6.2](#)).

**Siart 4.6: Aelwydydd sy'n byw mewn tloedi tanwydd yn ôl dosbarthiad gwledig / trefol, Cymru, 2018 (r)**



Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18


<sup>12</sup> Defnyddir [dosbarthiad Gwledig – Trefol Y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2011](#) ar gyfer ardaloedd. Dyrennir dosbarthiadau i ardaloedd bach cynnyrch y Cyfrifiad. Ystyrir ardaloedd cynnyrch yn 'drefol' os ydynt yn rhan o ardal adeiledig sy'n cynnwys 10,000 neu fwy o bobl. Mae ardaloedd gwledig yn cynnwys trefi a chyrion, pentrefi, pentrefannau ac ardaloedd ynysig.

## 5. Newidiadau Ers 2008 a Gwahanu Effeithiau

### 5.1. Newidiadau allweddol ers 2008 yn y math o aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd<sup>13</sup>

Mae nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn tldi tanwydd wedi gostwng o 332,000 o aelwydydd yn 2008 i 155,000 yn 2018. Mae hyn yn ostyngiad o 14 pwynt canran o 26% yn 2008 i 12% yn 2018.

#### Siart 5.1: Aelwydydd mewn tldi tanwydd, yn ôl deiliadaeth, Cymru, yn 2008 a 2018



Ffynhonnell: Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008 ac Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

- Mae canran yr aelwydydd yn y sector rhentu preifat sy'n byw mewn tldi tanwydd wedi gostwng o 36% yn 2008 i 20% yn 2018.
- Mae canran yr aelwydydd yn y sector eiddo i berchen-feddianwyr sy'n byw mewn tldi tanwydd wedi gostwng o 25% yn 2008 i 11% yn 2018.
- Mae canran yr aelwydydd yn y sector tai cymdeithasol sy'n byw mewn tldi tanwydd wedi gostwng o 26% yn 2008 i 9% yn 2018.

### 5.2. Gwahanu effaith gymharol pob elfen o dldi tanwydd

Mae'n ddiddorol deall pwysigrwydd cymharol pob un o wahanol elfennau tldi tanwydd yn y newid mewn tldi tanwydd rhwng 2008 a 2018; h.y. pa effaith gymharol y gellir ei phriodoli i newidiadau mewn incwm, pris tanwydd a defnydd ynni wedi'i foddlu. Gwneir hyn gan ddefnyddio techneg sy'n ystyried y newidiadau ym mhob elfen dros gyfnod, ac mae'n archwilio effaith debygol pob elfen ar wahân. Caiff y newid cyfartalog dros gyfnod ym mhob elfen ei newid ar gyfer aelwydydd yn y 30% isaf o ran incwm (y grŵp sydd â'r risg uchaf o fod mewn tldi tanwydd) ac fe gaiff y newidiadau hyn

<sup>13</sup> Dylid nodi bod y fethodoleg ar gyfer cyfrifo tldi tanwydd wedi newid rhwng 2008 a 2018. Y gwahaniaeth mwyaf arwyddocaol yw'r fethodoleg BREDEM a ddefnyddir i gyfrifo'r defnydd o ynni. Yn 2008, cyfrifwyd y defnydd o ynni gan ddefnyddio methodoleg BREDEM 12 (2001), tra cyfrifwyd data defnydd ynni 2018 gan ddefnyddio methodoleg BREDEM 2012.

eu cymhwyso i elfennau'r<sup>14</sup> set data sylfaen i archwilio effaith debygol pob newid. Rhoddir rhagor o fanylion am y broses hon yn yr [adroddiad methodoleg](#). Caiff yr effeithiau cymharol ar gyfer pob elfen eu crynhoi gan y ffactorau isod. Dangosir hyn yn raffigol yn Siart 5.2 isod.

Mae'n demtasiwn disgrifio effaith gymharol pob elfen o ran nifer yr aelwydydd a symudwyd i mewn neu allan o tlodi tanwydd. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r newidiadau yng nghyfanswm nifer yr aelwydydd er 2008 (a newidiadau demograffig eraill), mae'n anodd iawn gwneud hyn. Mae'n fwy rhesymol disgrifio maint cymharol effaith pob ffactor dros y cyfnod hwn, a fynegir fel ffractsiwn. Er enghraifft, os yw ffactor  $A = 1$ ,  $B = 2$  a  $C = 2$ , gallwn ddweud bod gan ffactorau B a C yr un effeithiau cymharol â'i gilydd, ond ddwywaith effaith A. Gallwn hefyd ddangos cyfeiriad yr effaith (h.y. cynnydd neu ostyngiad mewn tlodi tanwydd) yn ôl arwydd y ffactorau hyn (+ neu -).

Effaith gymharol elfennau tlodi tanwydd yng Nghymru: 2008 i 2018

- Cododd incymau oddeutu 26%<sup>15</sup> gan effeithio ar nifer yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd o ffactor o -1.00.
- Cododd pris tanwydd fesul uned oddeutu 47% gan effeithio ar ganran yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd o ffactor o 1.94
- Disgynnodd defnydd o ynni wedi'i fodelu oddeutu 37% gan effeithio ar nifer yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd o ffactor o -1.55


Mae arwydd negyddol y ffactorau yn nodi'r rheiny sydd wedi gweithredu i leihau tlodi tanwydd, sef y gostyngiad mewn defnydd ynni wedi'i fodelu a chynnydd mewn incwm aelwydydd. Caiff llai o ddefnydd ynni 55% yn fwy o effaith nag incwm cynyddol (datgelwyd gan gymhareb o -1 i -1.55). Mae cynnydd ym mhrisiau tanwydd wedi cynyddu lefel tlodi tanwydd. Mae graddfa'r effaith hon bron ddwywaith yn fwy na'r gostyngiad a achosir gan gynyddu incwm (datgelwyd gan gymhareb o -1 i 1.94) ond yn llai na'r effaith gyfunol, gan leihau tlodi tanwydd, incwm ac effeithlonrwydd ynni. Felly, mae cyfuno'r cynnydd mewn incwm a'r gostyngiad mewn defnydd o ynni wedi'i fodelu er 2008 wedi gwrthbwysu'r cynnydd mewn niferoedd tlodi tanwydd a welir gan gynydd ym mhris tanwydd. Mae'r cynnydd mewn incwm yn galluogi rhai aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd i ddod allan o dlodi tanwydd er gwaethaf y cynnydd ym mhrisiau tanwydd.

---

<sup>14</sup> Mae'r elfennau'n cynnwys incwm, prisiau tanwydd a defnydd o ynni.

<sup>15</sup> Mae hyn yn seiliedig ar ddata o Arolwg Byw yng Nghymru 2008 ac Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18, heb ei addasu ar gyfer chwyddiant.

**Siart 5.2: Effeithiau cymharol elfennau'r cyfrifiad tlodi tanwydd, Cymru, rhwng 2008 a 2018**



Ffynhonnell: Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008 ac Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

## 6. Tlodi tanwydd ledled y Deyrnas Unedig


Mae cyfran gyffredinol yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd ledled pedair gwlad y Deyrnas Unedig yn amrywio, ond ceir patrwm cyson o gynnydd mewn tlodi tanwydd (neu, yn achos Lloegr, dyfnder tlodi tanwydd) hyd at y cyfnod rhwng 2009 a 2012, wedi'i ddilyn gan ostyngiadau yn lefel y tlodi tanwydd ers y cyfnod hwn.

Dylid nodi bod gwahaniaethau methodolegol yn y ffordd y mae pob gwlad yn cyfrifo tlodi tanwydd. Mae Cymru a Gogledd Iwerddon yn rhannu diffiniad eithaf tebyg o dan y mesur 10%, tra bod Yr Alban yn defnyddio trefn wresogi wahanol. Yn Lloegr, ni ddefnyddir y mesur 10% mewn unrhyw rinwedd swyddogol, a defnyddir metrig Incwm Isel Costau Uchel (LIHC) yn lle (gweler [Adran 7](#)). Cafwyd y data a gyflwynir yn yr adran hon o ganlyniadau a gyhoeddwyd yn adroddiadau Arolwg Cyflwr Tai ar gyfer pob gwlad<sup>16</sup>.

### 6.1. Cymru

Yng Nghymru, mae lefel tlodi tanwydd wedi codi o 11% a amcangyfrifwyd yn 2004, i ffigur uchel, sef 26% yn 2008. Disgynnodd hyn i 12% yn ôl amcangyfrif yn 2018.

**Siart 6.1: Cyfres amser tlodi tanwydd yng Nghymru**




Ffynhonnell: Arolygon Eiddo Byw yng Nghymru 2004 a 2008 ac Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

<sup>16</sup> [Ystadegau Tlodi Tanwydd Lloegr](#)  
[Ystadegau Tlodi Tanwydd Yr Alban](#)  
[Ystadegau Tlodi Tanwydd Gogledd Iwerddon](#)

## 6.2. Gogledd Iwerddon

### Siart 6.2: Cyfres amser tloedi tanwydd yng Ngogledd Iwerddon


Yn 2016, cyfran yr aelwydydd yn dlawd o ran tanwydd yng Ngogledd Iwerddon oedd 22%, sydd 22 pwynt canran islaw'r gwerth uchaf yn 2009, lle roedd cyfran yr aelwydydd yn dlawd o ran tanwydd yn 44%.



Ffynhonnell: Arolygon Cyflwr Tai Gogledd Iwerddon 2006, 2009 (arolwg interim), 2011 a 2016

### 6.3. Yr Alban

Siart 6.3: Cyfres amser tlodi tanwydd yn Yr Alban<sup>17</sup>



Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Yr Alban ac Arolygon Tai Yr Alban 2003-2017

Yn 2017, cyfran yr aelwydydd yn dlawd o ran tanwydd yn Yr Alban oedd 24.9%. Hon yw'r gyfradd isaf a gofnodwyd gan yr arolwg ers 2005/06. Mae'r ystadegau hyn yn seiliedig ar yr hen ddiffiniad o dlodi tanwydd, lle roedd aelwyd mewn tlodi tanwydd pe byddai angen iddi wario mwy na 10% o'i hincwm ar holl danwydd yr aelwyd, er mwyn cynnal trefn wresogi foddhaol. Mae diffiniad newydd o dlodi tanwydd yn Neddff Tlodi Tanwydd (Targeted, Diffiniad a Strategaeth) (Yr Alban)<sup>18</sup>.


<sup>17</sup> Sylwer: Roedd y gofyniad ynni oedd yn sail amcangyfrif tlodi tanwydd wedi'i foddelu ar y sylfaen ganlynol: 2003/4 – 2009: BREDEM – 12; 2010 – 2013: BREDEM 2012 v.1.0; o 2014 ymlaen: mae BREDEM 2012 v.1.1. + WHD yn dangos bod Gostyngiad Cartrefi Cynnes wedi'i gynnwys, a + Prisiau Newydd i addasu ffynonellau prisiau tanwydd; o 2016, mae gwelliant pellach wedi'i gynnwys trwy bennu prisiau tanwydd rhagdaliad ar fesurydd i'r aelwydydd perthnasol.

<sup>18</sup> [Ffigurau sy'n cynrychioli'r amcangyfrifon gorau o dlodi tanwydd o dan y diffiniad newydd, yn dilyn y diwygiadau a gytunwyd yng ngham 2 tra oedd y bil yn mynd trwy'r Senedd.](#)

## 6.4. Lloegr

### Siart 6.4: Cyfres amser tloedi tanwydd yn Lloegr

Adroddir ffigurau tloedi tanwydd swyddogol Lloegr o dan y metrig Incwm Isel Costau Uchel (LIHC), a amlinellir yn [Adran 7](#) isod. O dan y metrig hwn, canran yr aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd yn Lloegr yn 2017 yw oddeutu 11%. Mae cyfran yr aelwydydd mewn tloedi tanwydd o dan LIHC yn aros fwy neu lai'r un fath flwyddyn ar ôl blwyddyn o ganlyniad i natur gymharol y dangosydd. Mae'r LIHC hefyd yn cynnwys mesur o ddyfnder tloedi tanwydd, sy'n cael ei alw'n fwch tloedi tanwydd cyfartalog. Mae'r elfen hon o'r dangosydd yn dangos mwy o newid fesul blwyddyn, gan ostwng o uchafbwynt o £388 yn 2012 i £321 yn 2017<sup>19</sup>.



Ffynhonnell: Arolygon Cyflwr Tai Lloegr ac Arolwg Tai Lloegr 2003 i 2017

<sup>19</sup> Sylwer bod y bwlch tloedi tanwydd yn cael ei fynegi mewn termau real, o gymharu â 2017 – h.y. caiff gwerthoedd hanesyddol eu chwyddo / datgchwyddo yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr i ganiatáu ar gyfer cymhariaeth fwy priodol dros gyfnod.



## 7. Mesurau amgen tlodi tanwydd

Awgrymwyd nifer o fanylebau amgen i'w defnyddio o bosibl o fewn y diffiniad 10% o dlodi tanwydd, ac, yn ychwanegol, y mesur tlodi tanwydd a ddefnyddir yn Lloegr ar hyn o bryd yw'r mesur Incwm Isel Costau Uchel (LIHC), sy'n ddull gwahanol.

Mae'r adran hon yn darparu canlyniadau cyfrifiad y manylebau amgen hynny ar gyfer y mesur tlodi tanwydd 10% ar gyfer Cymru o dan y diffiniad incwm sylfaenol ac o'r mesur Incwm Isel Costau Uchel ar gyfer Cymru. Nid yw'r rhain yn cynrychioli'r amcangyfrifon tlodi tanwydd swyddogol ar gyfer Cymru, ond cânt eu darparu i nodi effaith defnyddio diffiniadau amgen o dlodi tanwydd, a fydd yn ddefnyddiol wrth ystyried monitro tlodi tanwydd yn y dyfodol wrth ddatblygu'r cynllun tlodi tanwydd newydd.

### 7.1. Diffiniad o 10 y cant (incwm sylfaenol)

Ceir manylion am y diffiniad 10 y cant (incwm sylfaenol) o dlodi tanwydd yn [Atodiad A](#). O dan y diffiniad 10 y cant (incwm sylfaenol), mae 184,000 (14%) o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd yn 2018 ([Tabl 2.1.2](#)) o gymharu â 356,000 (28% o'r holl aelwydydd) yn 2008.

O dan y diffiniad hwn o incwm, roedd 159,000 o aelwydydd sy'n agored i niwed mewn tlodi tanwydd yn 2018 (14% o'r holl aelwydydd sy'n agored i niwed) ([Tabl 7.1.1](#)), o gymharu â 310,000 (32% o'r holl aelwydydd sy'n agored i niwed) yn 2008.

Yn 2018, o dan y diffiniad 10 y cant (incwm sylfaenol), roedd 40,000 o aelwydydd (3% o'r holl aelwydydd) yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol. Caiff hyn ei gymharu â 65,000 o aelwydydd (5% o'r holl aelwydydd) yn 2008 ([Tabl 2.3.1](#)). Roedd 25,000 o aelwydydd (64%) yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol yn agored i niwed o dan y diffiniad incwm sylfaenol.

### 7.2. Trefn wresogi amgen

Mewn gwaith sy'n cynnwys amcanestyniadau, a gynhaliwyd yn 2016 ar gyfer Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r diffiniad 10 y cant o dlodi tanwydd, defnyddiwyd trefn wresogi amgen ar gyfer aelwydydd pobl oeddrannus a'r rheiny sydd â salwch hirdymor neu anabled. I'r aelwydydd hyn, cynyddwyd tymereddau ystafell fyw o 21°C i 23°C a chynyddwyd oriau gwresogi yn ystod yr wythnos. Nid yw'r rhagdybiaethau hyn wedi cael eu dwyn ymlaen i'r ystadegau swyddogol ar gyfer 2018, a gynhrychwyd mewn modd cyson â 2008. Fodd bynnag, mae'n ddiddorol parhau o hyd i amcangyfrif sut byddai'r rhagdybiaethau amgen hyn yn effeithio ar yr ystadegau terfynol. Mae BRE wedi ymchwilio i effaith debygol y rhagdybiaethau amgen hyn. Rydym yn amcangyfrif y byddai cymhwyso'r rhagdybiaethau hyn i gyfrifo costau tanwydd yn arwain at gynnydd bach yn lefel y tlodi tanwydd yn 2018 o oddeutu 2 bwynt canran, h.y. byddai lefel tlodi tanwydd yn 2018 yn 14%, yn hytrach na 12%.

### 7.3. Incwm isel costau uchel

Caiff tlodi tanwydd yn Lloegr ei fesur gan ddefnyddio'r dangosydd Incwm Isel Costau Uchel (LIHC)<sup>20</sup>, sy'n ystyried bod aelwyd yn dlawd o ran tanwydd yn yr achosion canlynol:

<sup>20</sup> Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y dangosydd LIHC yn [Atodiad A](#).

- os bydd eu costau tanwydd<sup>21</sup> yn uwch na'r cyfartaledd (y lefel ganolrifol genedlaethol); a
- phe baent yn gwario'r swm hwnnw, byddent yn cael eu gadael ag incwm gweddilliol<sup>22</sup> islaw'r ffin tlodi<sup>23</sup>.

Mae manylion am ddangosydd LIHC wedi eu cynnwys yn yr [adroddiad methodoleg](#) sy'n cyd-fynd â'r cyhoeddiad hwn. Ar lefel uchel, mae elfennau'r cyfrifiad tlodi tanwydd yn aros yr un fath; h.y. incymau a chostau tanwydd; ond caiff manylion am yr elfennau hyn eu diffinio'n wahanol o dan fethodoleg LIHC. Yn fwy penodol, mae incymau yn y dull LIHC yn defnyddio mesur 'ar ôl costau tai', ac fe gaiff incymau a chostau tanwydd eu haddasu i gyfrif am faint aelwydydd.

Mae'r dangosydd LIHC yn ddangosydd cymharol gan ei fod yn cymharu aelwydydd â'r costau tanwydd ac incwm canolrifol cenedlaethol. Mae elfen arall i'r dangosydd hefyd, sy'n nodi dyfnder y tlodi tanwydd. Diffinnir hyn fel y gostyngiad mewn biliau tanwydd sydd ei angen ar yr aelwyd gyffredin sy'n dlawd o ran tanwydd er mwyn peidio â chael ei dosbarthu yn y fath fodd. Cyfeirir at hyn fel y bwch tlodi tanwydd, ac fe'i cynhyrchir fel swm cyfartalog (fesul aelwyd) ac fel swm cyfanredol ar draws yr holl aelwydydd.

O dan y diffiniad incwm isel costau uchel (LIHC), roedd 132,000 o aelwydydd Cymru yn byw mewn tlodi tanwydd yn 2018, sydd gyfwerth â 10% o'r holl aelwydydd yng Nghymru ([Tabl 7.2.1](#)). Y bwch tlodi tanwydd cyfartalog ar gyfer Cymru yn 2018 oedd oddeutu £431; dyma'r gostyngiad cyfartalog mewn bil tanwydd blynyddol oedd ei angen i symud yr aelwydydd hyn allan o dlodi tanwydd. Cyfanswm y bwch tlodi tanwydd cyfanredol ar gyfer Cymru yn 2018 oedd £56.9 miliwn.

Mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) yn Lloegr yn defnyddio metrig LIHC i fesur tlodi tanwydd yn swyddogol. Yn ôl yr amcangyfrifon diweddaraf o gyfran yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn Lloegr o dan fetrig LIHC, ar gyfer 2017, roedd 11% o aelwydydd yn Lloegr yn dlawd o ran tanwydd, gyda bwch tlodi tanwydd cyfartalog o £321 (£110 yn is na Chymru). Mae Gogledd Iwerddon wedi llunio amcangyfrifon LIHC yn ddiweddar hefyd. Yng Ngogledd Iwerddon, roedd 7% o aelwydydd (3 phwynt canran islaw Cymru) mewn tlodi tanwydd yn 2016 o dan y diffiniad LIHC, gyda bwch tlodi tanwydd o £436 (£5 yn uwch na Chymru).

Mae nifer yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd o dan ddangosydd LIHC yn tueddu i adlewyrchu gwasgariad y dosbarthiad incwm (fel a gasglwyd gan bob arolwg cenedlaethol). Mae'n debygol y bydd llai o aelwydydd islaw 60% o'r incwm canolrifol mewn poblogaethau sydd â dosbarthiad incwm mwy cyfyng, ac felly, diffinnir bod llai o aelwydydd yn dlawd o ran tanwydd. Fel dangosydd cymharol, mae nifer yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd o dan LIHC yn anymatebol i raddau helaeth (ond nid yn gyfan gwbl) i newidiadau eraill mewn agweddau fel prisiau tanwydd ac effeithlonrwydd ynni. Mae'r bwch tlodi tanwydd cyfartalog, sy'n disgrifio dyfnder y tlodi tanwydd, yn tueddu i adlewyrchu cost gymharol tanwydd ac effeithlonrwydd ynni mewn modd mwy ymatebol.

<sup>21</sup> Costau tanwydd sydd eu hangen i gael cartref cynnes, wedi'i oleuo'n dda, gyda dŵr cynnes ac er mwyn cynnal offer. Caiff ffactor cyfwerthedd ei gymhwyso i adlewyrchu'r ffaith fod angen gwahanol lefelau o ynni ar aelwydydd, yn dibynnu ar bwy sy'n byw yn yr eiddo. Gellir cael rhagor o wybodaeth am sut caiff costau tanwydd eu cyfrifo yn [Adran 5 y Llawlyfr Methodoleg](#)

<sup>22</sup> Diffinnir incwm gweddilliol fel incwm cywerthedd ar ôl costau tai, treth ac Yswiriant Gwladol. Mae cywerthedd yn adlewyrchu'r ffaith fod gwahanol ofynion gwariant gan aelwydydd, yn dibynnu ar bwy sy'n byw yn yr eiddo. Gellir cael rhagor o wybodaeth am sut caiff incwm ei foddelu yn [Adran 3 y Llawlyfr Methodoleg](#).

<sup>23</sup> Diffinnir y ffin tlodi (tlodi incwm) fel incwm gwario cywerthedd o lai na 60% o'r canolrif cenedlaethol ([Adran 2](#)).

Yn 2018, roedd 112,000 o aelwydydd yn agored i niwed mewn tloedi tanwydd yng Nghymru o dan y diffiniad LIHC, sef 10% o'r holl aelwydydd sy'n agored i niwed. ([Tabl 7.2.2](#)).

## 8. Canlyniadau yng nghyd-destun amcanestyniadau 2016

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfres o amcangyfrifon o lefel tlodi tanwydd yn y gorffennol yn ystod y cyfnod rhwng 2012 a 2016. Cynhyrchwyd y rhain gan BRE o dan nifer o ragdybiaethau, ac maent wedi'u seilio ar set data Byw yng Nghymru 2008. Roedd cael amcanestyniadau o'r waelodlin hon yn hynod heriol o ystyried maint yr amser ers yr arolwg gwreiddiol. Mae'n ddiddorol ailarchwilio'r amcanestyniadau hyn, yn dilyn cyfrifo ystadegau tlodi tanwydd 2018 Arolwg Cyflwr Tai Cymru.

Dangosir canlyniadau'r dadansoddiad gwreiddiol yn Nhabl 8.1 isod:

**Tabl 8.1: Amcanestyniadau 2012 i 2016 fel y'u cyhoeddwyd.**

	Mewn tlodi tanwydd	Canran (%)
2012	364	29
2013	351	28
2014	376	30
2015	305	24
2016	291	23

Fel y disgrifir ym mhrif gorff yr adroddiad hwn, mae'r canlyniadau ar gyfer 2018 yn dangos lefel o dlodi tanwydd o 12%. O ran gwerth enwol, gallai hyn awgrymu gostyngiad mewn tlodi tanwydd o 11 pwynt canran yn y cyfnod rhwng 2016 a 2018. Yn erbyn cefndir o newidiadau hysbys yn y cyfnod hwn, mae gostyngiad mawr yn ymddangos yn annhebygol. Mae BRE wedi cynnal adolygiad o ganlyniadau rhagamcanol 2016 i archwilio addasrwydd amcanestyniadau 2016 gan ystyried canlyniadau newydd Arolwg Cyflwr Tai Cymru, sy'n dangos sawl rheswm pam y gallai'r lefelau rhagamcanol hyn o dlodi tanwydd fod wedi cael eu goramcangyfrif.

Dylid gwneud sylw cychwynnol bod amcanestyniadau 2016 wedi cael eu cynnal o dan ragdybiaethau trefn wresogi wahanol nag o dan ystadegau 2008 a 2018. Yn benodol, cynyddwyd y tymheredd tybiedig a'r cyfnod gwresogi ar gyfer aelwydydd hŷn, a'r rheiny â salwch hirdymor neu anabled ar gyfer yr amcanestyniadau hyn. Effaith hyn yw cynyddu'r costau tanwydd, ac felly, lefel y tlodi tanwydd yn yr amcanestyniadau o gymharu â'r drefn a ddefnyddir yn ystadegau 2008 a 2018. Rydym wedi amcangyfrif y byddai oddeutu 14% o aelwydydd yn dlawd o ran tanwydd yn 2018 o dan y drefn wresogi amgen (o gymharu â 12% o dan y drefn a ddefnyddir ar gyfer amcangyfrifon swyddogol 2018).

Cymharwyd y rhagdybiaethau gwaelodol mewn perthynas ag incwm a phrisiau tanwydd hefyd i ddeall a yw'r ffigur hwn ar gyfer 2016 wedi cael ei oramcangyfrif neu'i danamcangyfrif o gymharu â'r newidiadau gwirioneddol a arsylwyd yn yr elfennau hyn.

Ar gyfer incymau, mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn gyffredinol yn agos iawn at y newidiadau a arsylwyd i'r graddau y mae'n bosibl cynnal yr asesiad hwn. Os byddwn yn ailgymhwyso'r codiadau tybiedig mewn incwm i ddata incwm llawn sylfaen 2008, i fynd â hyn i lefelau 2016, ac yn eu cymharu â'r newidynnau incwm llawn a arsylwyd yn 2018, mae'r canlyniadau'n gredadwy; yn hynny o beth, mae incymau 2018 yn nodweddiadol ychydig o bwyntiau canran uwchlaw incymau 2016 ar gyfer isadrannau allweddol y data. Mae hyn yn rhoi ychydig o hyder fod yr incymau a dybir yn yr amcanestyniadau yn lledamcanion rhesymol.

Ar gyfer prisiau tanwydd, mae'r rhagdybiaethau allweddol yn ymwneud â phrisiau nwy a thrydan; ac â dulliau talu. Trwy ailgymhwyso'r ffactorau chwyddiant tybiedig a ddefnyddiwyd i ragamcanu o brisiau sylfaen 2008 ar gyfer y tanwyddau hyn, a chymharu â'r prisiau cyhoeddus cyfwerth o 2016, gallwn archwilio pa mor briodol oedd y rhagdybiaethau hyn. Yn gyffredinol, roedd y chwyddiant prisiau nwy a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad a arweiniodd at amcanestyniadau 2016 yn debyg ar y cyfan i'r prisiau gwirioneddol o'r flwyddyn honno. Fodd bynnag, arweiniodd cyfraddau chwyddiant tybiedig ar gyfer prisiau trydan, at brisiau trydan a oedd oddeutu 10% yn uwch nag a arsylwyd mewn gwirionedd. Bydd y goramcangyfrif hwn o ran prisiau tanwydd yn 2016 hefyd yn arwain at lefel ragamcanol o dlodi tanwydd sy'n rhy uchel yn yr amcanestyniadau.

Mae effeithiau eraill, a oedd yn amlwg y tu allan i gwmpas y gwaith amcanestyniadau, yn cynnwys newidiadau mewn demograffeg, adeiladu tai newydd a dymchweliadau a newid dulliau talu. Mae'n anodd pennu effaith gyffredinol y newidiadau hyn. Fodd bynnag, mae'n ymddangos yn debygol y bydd newidiadau mewn dull talu am danwydd hefyd yn cyfrannu at oramcangyfrif y sefyllfaoedd rhagamcanol yn 2012 i 2016. Bu newid sylweddol yn y ffordd y mae aelwydydd yn talu am eu nwy a'u trydan; gan symud oddi wrth gredyd safonol (h.y. talu wrth dderbyn biliau) a thuag at ddebyd uniongyrchol, sy'n llai costus, ar y cyfan. O ganlyniad, gallai'r prisiau tanwydd rhagamcanol, fel y'u defnyddiwyd yn 2016, fod yn rhy uchel.

Yn gryno, mae'n ymddangos yn debygol bod y canlyniadau rhagamcanol ar gyfer 2012 i 2016 yn cael eu goramcangyfrif am nifer o resymau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- 1) Defnyddio trefn wresogi wahanol yn yr amcanestyniadau hyn
- 2) Goramcangyfrif prisiau trydan
- 3) Newidiadau mewn dull talu tuag at ddulliau cost is

Ni wneir unrhyw ymgais yma i feintoli graddfa gyffredinol yr effeithiau hyn a fyddai'n golygu bod angen cynnal amcangyfrifon 2012-2016 o'r newydd o dan ragdybiaethau amgen. Dylid nodi'r sylwadau hyn a chymryd unrhyw gamau adferol posibl, er mwyn gwella cywirdeb amcanestyniadau o'r math hwn yn y dyfodol.

## Atodiad A: Crynodeb o fethodoleg

### Cyflwyniad

Ceir crynodeb byr isod sy'n cynnwys disgrifiadau o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo ffigurau tlodi tanwydd 2018 ar gyfer Cymru o dan y diffiniad 10% a'r diffiniad Incwm Isel Costau Uchel (LIHC). Mae adroddiad methodoleg llawn yn cyd-fynd â'r cyhoeddiad hwn.

Defnyddir dau ddiffiniad ar gyfer tlodi tanwydd ym mhrif gorff y cyhoeddiad hwn, sef y diffiniadau 10% ac LIHC.

### Diffiniadau

#### Diffiniad 10%

Diffinnir bod aelwyd yn dlawd o ran tanwydd os gwnaethant wario mwy na 10% o'u hincwm ar danwydd. Cyfrifir hyn gan ddefnyddio'r hafaliad isod:

$$\circ \text{ Tlodi Tanwydd} = \frac{\text{Costau Tanwydd}}{\text{Incwm}}$$

Os bydd y gymhareb o'r hafaliad uchod yn fwy na 0.1, diffinnir bod yr aelwyd yn dlawd o ran tanwydd. Caiff cyfanswm y costau tanwydd ar gyfer aelwyd eu modelu gan ddefnyddio trefn wresogi safonol sy'n ystyried faint o arian y byddai angen i'r aelwyd ei wario ar gostau tanwydd er mwyn cyrraedd y safonau sefydledig ar gyfer cysur. Mae hyn yn seiliedig ar argymhellion gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ac yn golygu bod angen isafswm tymheredd dan do o 21 gradd canradd mewn ystafelloedd byw, a 18 gradd canradd mewn ardaloedd eraill. Diffinnir bod unrhyw aelwyd y mae'n rhaid iddi wario mwy na 20% o'i hincwm mewn tlodi tanwydd difrifol.

#### Diffiniad o Incwm Isel Costau Uchel (LIHC)

O dan y diffiniad Incwm Isel Costau Uchel (LIHC), ystyrir bod aelwyd yn dlawd o ran tanwydd yn yr achosion canlynol:

- Os bydd eu costau tanwydd yn uwch na'r cyfartaledd (y lefel ganolrifol genedlaethol)
- Pe baent yn gwario'r swm hwnnw, byddent yn cael eu gadael ag incwm gweddilliol islaw'r ffin tlodi swyddogol (60% o incwm canolrifol).

Mae'r dangosydd LIHC yn ddangosydd cymharol gan ei fod yn cymharu aelwydydd â chostau tanwydd ac incwm y canolrif cenedlaethol. Mae elfen arall i'r dangosydd hefyd, sy'n cynnwys dyfnder y tlodi tanwydd. Diffinnir hyn fel y gostyngiad mewn cost tanwydd (mewn punnoedd) sydd ei angen i symud yr aelwyd allan o dlodi tanwydd. Cyfeirir at hyn fel y bwch tlodi tanwydd, ac fe'i cynhyrchir fel swm cymedr (fesul aelwyd) ac fel swm cyfanredol ar draws yr holl aelwydydd.

## Cyfrifo prif elfennau tlodi tanwydd

Defnyddir tair prif elfen i gyfrifo tlodi tanwydd o dan y diffiniad 10% a'r diffiniad Incwm Isel Costau Uchel (LIHC): Incwm, Prisiau Ynni a Gofynion Ynni. Ceir crynodeb isod o'r modd y caiff yr elfennau hyn eu cyfrifo.

### Incwm

Ar gyfer y dangosyddion tlodi tanwydd 10%, mae angen dau ddiffiniad gwahanol o incwm, sef *incwm sylfaenol* ac *incwm llawn*. Ar gyfer y dangosydd LIHC, defnyddir trydydd diffiniad incwm, sy'n cael ei alw'n *incwm Cywerthedd Ar ôl Costau Tai (AHC)*.

- **Incwm Sylfaenol:** Caiff hyn ei gyfrifo trwy adio cyfanswm incymau personol pawb yn yr aelwyd (16 oed ac yn hŷn) at ei gilydd, yn ogystal ag unrhyw fudd-dal neu daliadau o ffynhonnell incwm arall y mae'r aelwyd yn eu derbyn (o incwm a enillir, budd-daliadau'r wladwriaeth a chynilion, ac ati) i ddarparu incwm y Brif Uned Budd-daliadau (PBU). Os yw'n berthnasol, caiff incwm o unedau budd-daliadau eraill a'r Taliad Tanwydd Gaeaf (WFP) ei ychwanegu wedyn i roi'r 'incwm sylfaenol'.
- **Incwm Llawn:** Mae hyn yn adeiladu ar 'incwm sylfaenol' trwy ychwanegu incwm yn gysylltiedig â thai, gan gynnwys: budd-daliadau yn gysylltiedig â thai (HB), Budd-dal y Dreth Gyngor (CTB), a didyniad o Dreth y Gyngor sy'n daladwy, sef 'Incwm Llawn yr Aelwyd'.
- **Incwm Cywerthedd Ar ôl Costau Tai (ar gyfer LIHC):** Caiff costau tai (taliadau rhent a morgais) eu didynnu o 'incwm llawn', y ffactor cywerthedd perthnasol, i adlewyrchu'r ffaith fod gwahanol ofynion gwariant gan wahanol aelwydydd yn cael eu cymhwyso wedyn. Mae hyn yn creu'r 'Incwm Cywerthedd Ar ôl Costau Tai' terfynol.

### Prisiau Ynni

Mae elfen pris tanwydd cyfrifiad tlodi tanwydd yn cynhyrchu prisiau tanwydd y gellir eu cyfuno'n rhwydd ag allbynnau gofyniad ynni aelwyd i gynhyrchu costau tanwydd.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn casglu gwybodaeth am ddull taliadau nwy a thrydan, ond nid yw'n casglu gwybodaeth am yr union dariff neu gyflenwr. Mae ffynonellau data'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) yn darparu 'pris cyfartalog uned' a 'chostau cyfartalog sefydlog' (ffioedd sefydlog) nwy a thrydan am ranbarthau cyflenwi ynni ledled y Deyrnas Unedig. Wedyn, caiff y cyfuniad o ddata gan Arolwg Cenedlaethol Cymru, a'r cyhoeddiad Prisiau Ynni Chwarterol<sup>24</sup> a ddarperir gan BEIS eu cyfuno i gyfrifo ffigur pris tanwydd terfynol. Darperir data arall ar gyfer tanwyddau nad ydynt ar fesurydd o ddata Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), ac ar gyfer ychydig o danwyddau prin o gyhoeddiad Sutherland Tables neu werthoedd diodyn SAP.

---

<sup>24</sup> Mae'r data prisiau tanwydd mesurydd a ddefnyddir yn y cyfrifiadau tlodi tanwydd yn deillio o brisiau ynni chwarterol BEIS, [yn nhablau QEP 2.2.4 a QEP 2.3.4](#)

## Gofynion Ynni

Un o elfennau tlodi tanwydd yw faint o danwydd sydd ei angen i ddarparu ar gyfer anghenion pob aelwyd, ac o gyfuno hyn â phrisiau tanwydd, mae'n cynhyrchu'r bil tanwydd wedi'i fodelu.

O dan y diffiniad tlodi tanwydd, gellir grwpio'r ynni sydd ei angen i wresogi a phweru cartref yn bedwar categori, sef:

- 1) Gwresogi gofod –  $E_s$  (GJ);
- 2) Gwresogi dŵr –  $E_w$  (GJ);
- 3) Goleuadau ac offer –  $E_{LA}$  (GJ);
- 4) Coginio –  $E_c$  (GJ).

Defnyddir methodoleg Model Ynni Domestig y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREDEM)<sup>25</sup> i ragfynegi gofynion ynni aelwyd lle mae:

$$\text{Cyfanswm gofynion ynni aelwyd} = E_s + E_w + E_{LA} + E_c$$

Mae cyfanswm gofynion ynni aelwyd yn cynnwys gwresogi gofod a dŵr (i fodloni safonau diffiniedig), ynni ar gyfer goleuadau ac offer (gan gynnwys gofynion ar gyfer pypiau, ffaniau a chawodydd trydan, ac ynni a gynhyrchir gan ynni adnewyddadwy), ac ynni ar gyfer coginio. Bydd faint o ynni sydd ei angen i wresogi annedd yn dibynnu ar fanyleb yr adeilad, fel lefelau inswleiddio, systemau gwresogi, lleoliad daearyddol yr annedd, a'r math o adeilad. Bydd galw aelwyd am ynni yn dibynnu ar nifer y bobl o fewn yr aelwyd, arferion yr unigolion hyn a'u ffordd o fyw. Defnyddir gwybodaeth o Arolwg Cenedlaethol Cymru ac Arolwg Cyflwr Tai Cymru i ddarparu manylion am anheddau ac aelwydydd fel ei gilydd. Defnyddir rhagdybiaethau Data SAP gostyngol (RdSAP) i ddelio â data coll a gellir eu gweld yn nogfen gweithdrefn SAP<sup>26</sup>. Dylid nodi bod y ffigurau bellach yn ymgorffori gwerthoedd diwygiedig, sef gwerthoedd-U (U-values) fel y'u cyhoeddwyd yn RdSAP v9.93.

Darperir data ar nodweddion y ddeiliadaeth, a'r rhanbarth, gan Arolwg Cenedlaethol Cymru. Wedyn, bydd Arolwg Cyflwr Tai Cymru yn darparu gwybodaeth am nodweddion ffisegol y cartref, a ddefnyddir i lywio modelu defnydd ynni aelwydydd ar gyfer tlodi tanwydd, gan gynnwys:

- Gwybodaeth fanwl am y dimensiynau
- Math o annedd a'i hoedran
- Systemau gwresogi a dŵr poeth
- Ffabrig yr annedd ac amlygiad/cysgodi
- Mesurau effeithlonrwydd ynni.

<sup>25</sup> Defnyddir methodoleg BREDEM a ddisgrifir yn Henderson J, Hart J, BREDEM 2012 [A technical description of the BRE Domestic Energy Model, v1.1](#), Ionawr 2015.

<sup>26</sup> BRE 2017. [Appendix S](#): Reduced Data SAP for existing dwellings, RdSAP 2012 v9.93.



## Atodiad B: Tablau

Sylwer bod “-” a ddangosir yn y tablau isod yn dangos bod yr amcangyfrifon yn seiliedig ar lai na 30 o ymatebwyr. Mae'r holl amcangyfrifon wedi eu talgrynnu i'r 1000 o aelwydydd agosaf. Bydd clicio ar benawdau'r tablau gyda dolenni isod yn eich cyfeirio at yr adran berthnasol yn yr adroddiad.

### 2.1.1. [Aelwydydd mewn tloidi tanwydd yn 2018](#)

Diffiniad Tloidi Tanwydd	Ddim mewn tloidi tanwydd		Mewn tloidi tanwydd		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Incwm Llawn	1,186,000	88	155,000	12	1,342,000	100
Incwm Sylfaenol	1,158,000	86	184,000	14	1,342,000	100

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

### 2.1.2. [Aelwydydd mewn tloidi tanwydd yn 2008](#)

Diffiniad Tloidi Tanwydd	Ddim mewn tloidi tanwydd		Mewn tloidi tanwydd		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Incwm Llawn	936,000	74	332,000	26	1,268,000	100
Incwm Sylfaenol	912,000	72	356,000	28	1,268,000	100

Ffynhonnell: Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008

### 2.2.1. [Aelwydydd yn ôl bregusrwydd a statws tloidi tanwydd yn 2018 – incwm llawn](#)

Statws Tloidi Tanwydd	Ddim yn agored i niwed		Yn agored i niwed	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim mewn tloidi tanwydd	181,000	88	1,006,000	89
Mewn tloidi tanwydd	25,000	12	130,000	12
Cyfanswm	206,000	100	1,136,000	100

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

### 2.3.1. [Tloidi tanwydd difrifol – cymharu 2008 â 2018](#)

Statws Tloidi Tanwydd		2008		2018	
		Nifer	Canran	Nifer	Canran
Diffiniad Incwm Llawn	Ddim mewn tloidi tanwydd difr	1,208,000	95	1,310,000	98
	Mewn tloidi tanwydd difrifol	60,000	5	32,000	2
	Cyfanswm	1,268,000	100	1,342,000	100
Diffiniad Incwm Sylfaenol	Ddim mewn tloidi tanwydd difr	1,203,000	95	1,302,000	97
	Mewn tloidi tanwydd difrifol	65,000	5	40,000	3
	Cyfanswm	1,268,000	100	1,342,000	100

Ffynhonnell: Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008 ac Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

### 2.3.2. [Tloidi tanwydd difrifol – aelwydydd sy'n agored i niwed yn 2018](#)

Statws Tloidi Tanwydd	Ddim yn agored i niwed		Yn agored i niwed		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim mewn tloidi tanwydd	192,000	15	1,117,000	85	1,310,000	100
Mewn tloidi tanwydd difrifol	13,000	42	19,000	59	32,000	100

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

### 2.3.3. Bregusrwydd aelwydydd yn 2018 – cyfanswm y boblogaeth

	<i>Nifer</i>	<i>Canran</i>
<b>Bregusrwydd</b>	<b>Cyfanswm y Boblogaeth</b>	
Ddim yn agored i niwed	206,000	15
Yn agored i niwed	1,136,000	85
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,342,000</b>	<b>100</b>

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

#### 3.1.1. Math o aelwyd yn ôl statws tlodi tanwydd yn 2018

Math o Aelwyd	<i>Nifer</i> <i>Canran</i>		<i>Nifer</i> <i>Canran</i>		<i>Nifer</i> <i>Canran</i>	
	Ddim mewn tlodi tanwydd		Mewn tlodi tanwydd		Cyfanswm	
Pensiynwr sengl (dim plant)	203,000	82	45,000	18	248,000	100
Pensiynwr sy'n un o bâr priod (dim plant)	148,000	89	19,000	11	167,000	100
Person sengl, nid pensiynwr (dim plant)	141,000	81	33,000	19	175,000	100
Aelwyd dau oedolyn gyda phlant	198,000	98	5,000	2	203,000	100
Aelwyd dau oedolyn (hyd at un pensiynwr) heb blant	216,000	90	24,000	10	240,000	100
Aelwyd rhiant sengl	85,000	91	8,000	9	93,000	100
Aelwydydd eraill	195,000	90	21,000	10	216,000	100

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Cartrefi Cymru 2017-18

#### 3.1.2. Oedran Person Cyswllt y Cartref (HRP) yn ôl statws tlodi tanwydd yn 2018

Oedran Person Cyswllt y Cartref	<i>Nifer</i> <i>Canran</i>		<i>Nifer</i> <i>Canran</i>		<i>Nifer</i> <i>Canran</i>	
	Ddim mewn tlodi tanwydd		Mewn tlodi tanwydd		Cyfanswm	
16 - 34 oed	157,000	87	24,000	13	181,000	100
35 - 44 oed	176,000	94	10,000	6	186,000	100
45 - 54 oed	230,000	93	17,000	7	248,000	100
55 - 64 oed	210,000	85	37,000	15	247,000	100
65 - 74 oed	244,000	90	26,000	10	270,000	100
75 oed ac yn hŷn	170,000	81	41,000	19	210,000	100

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

#### 3.2.1. Deiliadaeth yn ôl statws tlodi tanwydd yn 2018 – diffiniad incwm llawn

Deiliadaeth	<i>Nifer</i> <i>Canran</i>		<i>Nifer</i> <i>Canran</i>		<i>Nifer</i> <i>Canran</i>	
	Ddim mewn tlodi tanwydd		Mewn tlodi tanwydd		Cyfanswm	
Yn eiddo i berchen-feddia	825,000	89	99,000	11	924,000	100
Wedi'u rhentu'n breifat	144,000	80	36,000	20	180,000	100
Tai cymdeithasol	217,000	91	21,000	9	238,000	100

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

#### 3.2.2. Deiliadaeth yn ôl statws tlodi tanwydd yn 2018 – diffiniad incwm sylfaenol

Deiliadaeth	<i>Nifer</i> <i>Canran</i>		<i>Nifer</i> <i>Canran</i>		<i>Nifer</i> <i>Canran</i>	
	Ddim mewn tlodi tanwydd		Mewn tlodi tanwydd		Cyfanswm	
Yn eiddo i berchen-feddia	841,000	91	83,000	9	924,000	100
Wedi'u rhentu'n breifat	132,000	73	48,000	27	180,000	100
Tai cymdeithasol	185,000	78	53,000	22	238,000	100

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

### 3.3.1. Statws cyflogaeth y bobl sy'n dlawd o ran tanwydd yn 2018

Statws Cyflogaeth	<i>Nifer</i>		<i>Canran</i>		<i>Nifer</i>		<i>Canran</i>	
	Ddim mewn tloidi tanwydd		Mewn tloidi tanwydd		Cyfanswm			
Mewn swydd	608,000	96	28,000	4	636,000	100		
Di-waith	20,000	72	-	-	28,000	100		
Economaidd anweithgar	558,000	82	119,000	18	677,000	100		

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

### 3.4.1. Statws tloidi tanwydd yn ôl degradd incwm yn 2018

Degradd Incwm	<i>Nifer</i>		<i>Canran</i>		<i>Nifer</i>		<i>Canran</i>	
	Ddim mewn tloidi tanwydd		Mewn tloidi tanwydd		Cyfanswm			
Degradd isaf	41,000	31	92,000	69	133,000	100		
2	94,000	76	30,000	24	123,000	100		
3	113,000	90	13,000	10	125,000	100		
4	113,000	93	8,000	7	121,000	100		
5	116,000	97	4,000	3	120,000	100		
6	130,000	98	3,000	2	133,000	100		
7	127,000	99	2,000	1	128,000	100		
8	131,000	98	3,000	2	134,000	100		
9	156,000	99	1,000	1	157,000	100		
Degradd uchaf	167,000	100	0	0	167,000	100		

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

### 3.5.1 Aelwydydd sy'n cael budd-daliadau yn ôl statws tloidi tanwydd yn 2018 (r)

Yn cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd	<i>Nifer</i>		<i>Canran</i>		<i>Nifer</i>		<i>Canran</i>	
	Ddim mewn tloidi tanwydd		Mewn tloidi tanwydd		Cyfanswm			
Ddim yn cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd	898,000	89	107,000	11	1,005,000	100		
Yn cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd	289,000	86	48,000	14	337,000	100		

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

### 4.1.1. Aelwydydd mewn tloidi tanwydd yn ôl math o annedd yn 2018

Math o annedd	<i>Nifer</i>		<i>Canran</i>		<i>Nifer</i>		<i>Canran</i>	
	Ddim mewn tloidi tanwydd		Mewn tloidi tanwydd		Cyfanswm			
Diwedd teras	108,000	86	17,000	14	125,000	100		
Canol teras	235,000	88	32,000	12	267,000	100		
Tŷ pâr	372,000	90	42,000	10	413,000	100		
Tŷ ar wahân	343,000	88	46,000	12	389,000	100		
Pob fflat a di-breswyl	129,000	88	18,000	12	148,000	100		

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

### 4.2.1. Oedran anheddau yn ôl statws tloidi tanwydd yn 2018

Oedran Anheddau	<i>Nifer</i>		<i>Canran</i>		<i>Nifer</i>		<i>Canran</i>	
	Ddim mewn tloidi tanwydd		Mewn tloidi tanwydd		Mewn tloidi tanwydd			
Cyn 1919	281,000	79.90	70,000	20	351,000	100		
1919 i 1944	120,000	90	-	-	133,000	100		
1945 i 1964	195,000	89	25,000	11	219,000	100		
1965 i 1980	276,000	91	28,000	9	304,000	100		
Ar ôl 1980	316,000	94	19,000	6	334,000	100		

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

#### 4.3.1. Prif system wresogi yn ôl statws tloidi tanwydd yn 2018

	<i>Nifer</i>	<i>Canran</i>	<i>Nifer</i>	<i>Canran</i>	<i>Nifer</i>	<i>Canran</i>
Prif system wresogi	Ddim mewn tloidi tanwydd		Mewn tloidi tanwydd		Cyfanswm	
Gwres canolog	1,143,000	90	127,000	10	1,271,000	100
Gwresogydd stôr a gwresogydd ystafell sefydlog	43,000	61	28,000	39	71,000	100

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

#### 4.4.1. Math o wal ac inswleiddio yn ôl statws tloidi tanwydd yn 2018

	<i>Nifer</i>	<i>Canran</i>	<i>Nifer</i>	<i>Canran</i>	<i>Nifer</i>	<i>Canran</i>
Math o wal ac inswleiddio	Ddim mewn tloidi tanwydd		Mewn tloidi tanwydd		Cyfanswm	
Wal geudod wedi'i hinswleiddio	588,000	93	48,000	7	636,000	100
Wal geudod heb ei hinswleiddio	264,000	89	34,000	11	298,000	100
Wal soled wedi'i hinswleiddio	62,000	87	-	-	71,000	100
Wal soled heb ei hinswleiddio	243,000	79	65,000	21	307,000	100
Arall	30,000	100	-	-	30,000	100

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

#### 4.5.1. Band EPC yn ôl statws tloidi tanwydd yn 2018

	<i>Nifer</i>	<i>Canran</i>	<i>Nifer</i>	<i>Canran</i>	<i>Nifer</i>	<i>Canran</i>
Band gradd effeithlonrwydd ynni (SAP 2012)	Ddim mewn tloidi tanwydd		Mewn tloidi tanwydd		Cyfanswm	
B-C	359,000	95	-	-	380,000	100
D	628,000	91	64,000	9	692,000	100
E	153,000	81	35,000	19	188,000	100
F-G	46,000	57	35,000	43	81,000	100

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

#### 4.6.1. Dadansoddiad ardal Wledig/Trefol yn ôl statws tloidi tanwydd yn 2018

	<i>Nifer</i>	<i>Canran</i>	<i>Nifer</i>	<i>Canran</i>	<i>Nifer</i>	<i>Canran</i>
Math o ardal	Ddim mewn tloidi tanwydd		Mewn tloidi tanwydd		Cyfanswm	
Trefol	806,000	90	94,000	10	900,000	100
Gwledig	381,000	86	61,000	14	441,000	100
Cyfanswm	1,186,000	88	155,000	12	1,342,000	100

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

#### 4.6.2. Prif system wresogi'r holl aelwydydd yn ôl math o ardal yn 2018

	<i>Nifer</i>	<i>Canran</i>	<i>Nifer</i>	<i>Canran</i>
Prif System Wresogi	Trefol a Maestrefol		Gwledig	
Gwres canolog	900,000	96	371,000	92
Gwresogydd stôr	24,000	3	24,000	6
Gwresogydd ystafell sefydlog	14,000	1	9,000	2
Cyfanswm	937,000	100	404,000	100

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

#### 6.1.1 Gwahanu effeithiau – newidiadau a arsylwyd

	<i>Canran</i>	<i>Canran</i>	<i>Canran</i>
Newid a Arsylwyd	Incwm	Pris Tanwydd	Defnydd o Ynni
2008 i 2018	26	47	-37

Ffynhonnell: Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008 ac Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

**7.1.1. Aelwydydd yn ôl bregusrwydd a statws tlodi tanwydd yn 2018 – incwm sylfaenol**

Statws Tlodi Tanwydd	<i>Nifer</i>		<i>Canran</i>	
	Ddim yn Agored i Niwed		Yn agored i niwed	
Ddim mewn tlodi tanwydd	181,000	88	977,000	86
Mewn tlodi tanwydd	25,000	12	159,000	14
Cyfanswm	206,000	100	1,136,000	100

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

**7.2.1. Aelwydydd mewn tlodi tanwydd, o dan LIHC yn 2018**

	<i>Canran</i>		<i>Canran</i>		<i>Canran</i>	
	Ddim mewn tlodi tanwydd		Mewn tlodi tanwydd		Cyfanswm	
Diffiniad LIHC	1,210,000	90	132,000	10	1,342,000	100

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

**7.2.2. Aelwydydd yn ôl bregusrwydd a statws tlodi tanwydd LIHC**

Statws tlodi tanwydd	<i>Nifer</i>		<i>Canran</i>	
	Ddim yn agored i niwed		Yn agored i niwed	
Ddim mewn Tlodi Tanwydd LIH	186,000	90	1,024,000	90
Mewn Tlodi Tanwydd LIHC	20,000	10	112,000	10
Cyfanswm	206,000	100	1,136,000	100

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

(r) Diwygiwyd hyn ar 13 Rhagfyr 2019

## Gwybodaeth ansawdd allweddol

Mae'r adran hon yn crynhoi Arolwg Cyflwr Tai Cymru (ACTC) a gwybodaeth ansawdd Arolwg Cenedlaethol Cymru. Sylwer bod **Adroddiad Ansawdd** manwl am ystadegau ACTC wedi'i gyhoeddi ar [wefan ACTC](#), sy'n mesur ansawdd yn unol â phum dimensiwn, sef: Perthnasedd, Cywirdeb a Dibynadwyedd, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymharedd a Chydlyniad. Mae [Adroddiad ansawdd](#) cryno ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol ar gael, sy'n cynnwys mwy o wybodaeth am ansawdd yr arolwg, yn ogystal â chrynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu'r canlyniadau ynghyd.

## Cefndir Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18

Cynhelir Arolwg Cenedlaethol Cymru gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ran Llywodraeth Cymru. Ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18, dewiswyd 23,517 o gyfeiriadau ar hap o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post Defnyddwyr Bach y Post Brenhinol. Ymwelodd cyfwelwyr â phob cyfeiriad a dewis un oedolyn (16 oed ac yn hŷn) ar hap yn yr aelwyd. Wedyn, fe wnaethant gynnal cyfweiliad 45 munud wyneb yn wyneb â'r oedolyn, gan gwmpasu amrywiaeth o safbwyntiau, ymddygiadau a nodweddion. Cynhaliwyd cyfanswm o 11,381 o gyfweiliadau, gyda chyfradd ymateb o 54.5%.

Mae'r wybodaeth am incwm a chostau tai a ddefnyddir i gyfrifo tlodi tanwydd yn y Datganiad hwn yn seiliedig ar gyfweiliadau a gwblhawyd rhwng 1 Gorffennaf 2017 a 31 Mawrth 2018. Os yr ymatebydd oedd Person Cyswllt y Cartref, ei briod/phriod neu bartner, gofynnwyd set fanwl o gwestiynau am incwm a chostau tai.

Mae mwy o wybodaeth am y dull ar gael yn yr [adroddiad technegol](#).

## Cefndir i Arolwg Cyflwr Tai Cymru (ACTC) 2017-18

Roedd bwlch allweddol yng ngwybodaeth Llywodraeth Cymru am gyflyrau tai yng Nghymru. Y casgliad cynhwysfawr diwethaf o ddata ar gyflyrau tai yng Nghymru cyn Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 oedd Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru yn 2008. Ym mis Mehefin 2016, rhoddwyd caniatâd a chyllid ar gyfer y [Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai \(RDGT\)](#) Caiff y Rhaglen ei rheoli gan y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) o fewn Llywodraeth Cymru, ac mae'n cwmpasu dwy ffrwd waith, sef:

- Arolwg Cyflwr Tai Cymru (ACTC) 2017-18, ac
- [Adnodd Dadansoddi Stoc Tai Cymru \(ADSD\)](#): Storfa yn cofnodi amrywiaeth o ddata ar nodweddion, ffabrig, cyflwr ac effeithlonrwydd ynni'r stoc dai yng Nghymru, yn ei hanfod; ar lefel eiddo unigol, pan fo modd.

Cynhaliwyd Arolwg Cyflwr Tai Cymru gan y [Sefydliad Ymchwil Adeiladu](#) (BRE) ar ran Llywodraeth Cymru. Gwnaed gwaith maes rhwng mis Awst 2017 a mis Ebrill 2018. Cynhaliwyd archwiliadau eiddo gan syrfewyr cymwys, a wnaeth asesiad gweledol o'r eiddo, y tu mewn a'r tu allan. Parodd yr archwiliadau rhyw 40-50 munud, a threuliwyd rhyw 20 munud y tu mewn yn cynnal archwiliad fesul ystafell. Archwiliodd y syrfëwr blot yr eiddo hefyd, a gwnaeth asesiad o'r gymdogaeth leol. I gael manylion llawn am y testunau sydd wedi eu cynnwys yn yr Arolwg, gweler y Ffurflen Arolwg, sydd ar gael ar [wefan ACTC](#).

Dewiswyd sampl o gyfeiriadau o blith aelwydydd cymwys yn cymryd rhan yn [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) 2017-18. Cwblhawyd cyfanswm o 2,549 o arolygon llawn ACTC ar draws 22 awdurdod lleol Cymru, sy'n galluogi amcangyfrifon ar lefel genedlaethol. Cyflawnwyd cyfradd gyson o 58% gan gyfwelwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru, ac o'r rheiny, cyflawnwyd cyfradd drosi o 78% gan syrfewyr BRE. Y gyfradd ymateb gyffredinol oedd 45%.

Gellir cael gwybodaeth fanwl am y fethodoleg a ddefnyddir yn Arolwg Cyflwr Tai Cymru yn adroddiad technegol yr arolwg, sydd ar gael ar [wefan ACTC](#).

## **Sut caiff amcangyfrifon Tlodi Tanwydd eu defnyddio?**

Defnyddir amcangyfrifon Tlodi Tanwydd gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i helpu targedu adnoddau a mesurau i wella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi ledled Cymru. Mae [Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010](#) Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r camau a gymerwyd i leihau tlodi tanwydd yng Nghymru, a bydd yr amcangyfrifon diweddaraf yn llywio'r cynllun newydd i helpu targedu tlodi tanwydd.

## **Pwy yw defnyddwyr amcangyfrifon Tlodi Tanwydd?**

Defnyddir amcangyfrifon tlodi tanwydd at ddibenion llunio polisi gan Lywodraeth Cymru ym meysydd tai a'r amgylchedd yn bennaf, ond hefyd anghenion polisi cymdeithasol. Ceir ystod eang o ddefnyddwyr eraill, gan gynnwys: Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru; awdurdodau lleol ledled Cymru; lechyd Cyhoeddus Cymru; sefydliadau'r trydydd sector; cymdeithasau tai, elusennau; adrannau eraill llywodraeth y DU a sefydliadau llywodraeth leol; sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus eraill; academyddion; cwmnïau preifat; y cyfryngau; ac aelodau o'r cyhoedd.

## **Cryfderau a Chyfyngiadau**

Darperir gwybodaeth am gryfderau a chyfyngiadau Amcangyfrifon Tlodi Tanwydd yn yr adroddiad methodoleg sy'n cyd-fynd â'r bwletin hwn.

## **Cydlyniad**

Er bod pob un o wledydd y Deyrnas Unedig yn creu amcangyfrifon tlodi tanwydd, dylid nodi bod pob un o wledydd y Deyrnas Unedig yn defnyddio'i diffiniad ei hun o dlodi tanwydd, ac o'r herwydd, ni ellir cymharu ystadegau tlodi tanwydd ar draws y gwledydd. Bydd dadansoddiad pellach o'r amcangyfrifon tlodi tanwydd hyn yn cael eu cyhoeddi yn yr haf, a fydd yn edrych ar sut a ble y gellir gwneud cymariaethau.

Dolenni i Ystadegau Tlodi Tanwydd eraill y Deyrnas Unedig:

[Ystadegau Tlodi Tanwydd Lloegr](#)

[Ystadegau Tlodi Tanwydd Yr Alban](#)

[Ystadegau Tlodi Tanwydd Gogledd Iwerddon](#)

## **Newidiadau i fethodoleg SAP (Gweithdrefn Asesu Safonol) ar gyfer perfformiad effeithlonrwydd ynni**

Y Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) yw'r fethodoleg a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i asesu a chymharu ynni anheddau.

Mae SAP yn gweithio trwy asesu faint o ynni y bydd annedd yn ei ddefnyddio, wrth sicrhau lefel ddiffiniedig o gysur a darpariaeth gwasanaeth. Mae'r asesiad yn seiliedig ar ragdybiaethau safonedig ar gyfer deiliadaeth ac ymddygiad. Mae hyn yn galluogi cymhariaeth gyfatebol o berfformiad anheddau. Mynegir y graddau ar raddfa rhwng 1 a 100, lle mae 100 yn cynrychioli dim cost ynni. Diweddarwyd methodoleg SAP yn sylweddol ddwywaith ers fersiwn 2005, a ddefnyddiwyd ar gyfer modelu Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008, yn gyntaf i SAP 2009 ac wedyn SAP 2012. Yn ychwanegol, diweddarwyd methodoleg Data SAP Gostyngol (RdSAP) ar gyfer SAP 2012 ym mis Tachwedd 2017.

### **Diwygiadau**

Ar 29 Awst 2019, yn fuan ar ôl ei gyhoeddi, diwygiwyd y prif ganlyniadau ar gyfer canran yr aelwydydd person sengl heb blant mewn tloidi tanwydd oherwydd gwall wrth deipio'r prif ganlyniadau. Roedd prif gorff yr adroddiad a'r siartiau cysylltiedig yn gywir.

Ar 3 Medi 2019, diwygiwyd Siart 3.1a i gynnwys troednodyn oedd ar goll. Newidiwyd hefyd y canran o ymatebwyr di-waith mewn tloidi tanwydd o 26% i 28% ym mhrif gorff y testun o ganlyniad i wall yn yr adroddiad wedi'i ddiweddarau a anfonwyd gan BRE. Roedd hyn hefyd yn effeithio siart 3.3.

Ar 13 Rhagfyr 2019 diwygiwyd y canran o ymatebwyr mewn tloidi tanwydd yn derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, gan y canfu BRE wall yng nghyfrifiad newidyn y budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd. Diwygiwyd Siart 3.5 a thabl 3.5.1 i ddangos y ffigyrau wedi'u cywiro. Nid yw hyn yn effeithio ar y lefelau tloidi tanwydd cyffredinol.

## **Statws Ystadegau Gwladol**

Mae gan [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) ystadegau dynodedig o Arolwg Cyflwr Tai Cymru ac Arolwg Cenedlaethol Cymru fel Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 ac sy'n nodi cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ran credadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus, a'n cyfrifoldeb ni yw cynnal cydymffurfio â'r safonau hyn.

Cadarnhawyd dynodi ystadegau Arolwg Cyflwr Tai Cymru fel Ystadegau Gwladol ym mis Rhagfyr 2018 yn dilyn gwiriad cydymffurfio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau:

[Ystadegau o Arolwg Cyflwr Tai Cymru: Cadarnhau fel Ystadegau Gwladol](#)

Cadarnhawyd dynodi ystadegau Arolwg Cenedlaethol Cymru fel Ystadegau Gwladol ym mis Mai 2013 yn dilyn gwiriad cydymffurfio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau. Cadarnhawyd dynodiad parhaus yr ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2017:

[Ystadegau o Arolwg Cenedlaethol Cymru: Cadarnhau fel Ystadegau Gwladol](#)



Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried p'un a yw'r ystadegau yn bodloni'r safonau uchaf o gydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a thrafodaethau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cynnal cydymffurfiad â'r safonau sy'n ddisgwyliedig o Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn dechrau pryderu ynglŷn â ph'un a yw'r ystadegau hyn yn bodloni'r safonau priodol o hyd, byddwn yn trafod unrhyw bryderon gyda'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan na chynhelir y safonau uchaf, a'i roi yn ôl pan gaiff safonau eu hadfer.

## **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (DLICD)**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ynglŷn â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar gyfer Cymru ar waith, sef sicrhau bod Cymru yn fwy cyfartal, ffyniannus, gwydn, iach a chyfrifol yn fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog a bod y Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) y Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso ar gyfer mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd y 46 dangosydd cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratifau ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig, ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Rhagor o wybodaeth am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau sydd wedi eu cynnwys yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a'u defnyddio gan fyrdau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## **Manylion pellach**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn: <https://llyw.cymru/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ar-gyfer-cymru-2018>

## **Diweddariad nesaf**

Nid yw hwn yn adroddiad rheolaidd.

## **Hoffem gael eich adborth**

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn, y gellir ei ddarparu trwy'r e-bost i [ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru](mailto:ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru).

## **Trwydded Llywodraeth Agored**

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y [Drwydded Llywodraeth Agored v3.0](#), ac eithrio lle nodir yn wahanol.

